@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Clwb Bowlio Ynys-y-bwl

Daeth Clwb Bowls Ynys-y-bwl aton ni'n gofyn am gymorth i recriwtio aelodau newydd, yn enwedig aelodau iau a menywod. Roedden nhw hefyd am wella'u cyfleusterau a chyflwr chwarae'r lawnt fowlio.

Yn gyntaf, fe wnaethon ni annog y clwb i sefydlu cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol i wella ymgysylltiad â'r gymuned leol a'u gwneud nhw'n fwy gweladwy i aelodau newydd. Fe wnaethon ni hefyd eu helpu i sefydlu sesiynau blasu trwy eu tudalen Facebook newydd. O fewn wythnosau roedd y clwb wedi sefydlu adran newydd i fenywod ac roedd hyd at 50 o bobl newydd yn mynychu'r sesiynau.

Fe drefnon ni gyfarfodydd, gan gefnogi'r clwb i greu cysylltiadau gyda sefydliadau cymunedol lleol megis Partneriaeth Adfywio Ynys-y-bwl a Game On Wales. O hynny daeth y clwb yn rhan o raglen Haf o Hwyl, gan gyflwyno Bowlio Stryd i bobl ifainc Ynys-y-bwl. O ganlyniad i hyn, sefydlodd y clwb adran bowlio iau newydd.

Nododd y clwb fod diffyg offer yn broblem, yn enwedig peli ysgafnach (woods) ar gyfer y chwaraewyr iau a'r menywod. Trwy gyfathrebu roedd modd i'r clwb fenthyg offer gan glybiau bowlio eraill. Aethpwyd i'r afael â'r materion cyfleuster hefyd drwy drefnau cyfathrebu cadarnhaol â'n hadran Barciau.

Yn dilyn diwedd tymor bowls lawnt, cadwodd y clwb fomentwm trwy gyflwyno sesiynau bowlio dan do i'r gymuned. Mae'r clwb bellach mewn sefyllfa gadarn iawn ac rydyn ni'n falch o fod wedi eu cefnogi i ddatblygu'u clwb. Gwerthfawrogodd pwyllgor y clwb ein cefnogaeth yn fawr:

> *"Rwy'n falch i ddweud bod gyda ni 15-18 o fenywod yn cymryd rhan yn rheolaidd ar nos Fercher bellach, a nifer o blant iau. Rydyn ni'n gweld o leiaf 50 o chwaraewyr gwahanol bob wythnos yn defnyddio ein lawnt fowlio - i mi, mae'n teimlo fel ein bod ni wedi ennill y loteri! Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich ymdrech yn fawr."*

**33** o aelodau newydd

**100%** nawr yn teimlo'n fwy egnïol, yn amlach

**100%** yn bwriadu parhau i fyw'n heini

**100%** yn teimlo'n iachach

**100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**100%** yn teimlo'n hapusach

**100%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF